## Canolfan Iaith

ROEDD Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd, Ysgol Eifionnydd, yn fwrlwm o weithgareddau cerddorol wrth i'r disgyblion ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar 9 Chwefror (llun dde).

Fel rhan o'r dathliadau, bu'r i'r disgyblion fwynhau ymweliad gan un o sêr y sîn cerddoriaeth yng Nghymru, sef Yws Gwynedd.

Cafodd y dysgwyr, sydd wedi symud o bob rhan o'r byd i Wynedd, brofiad o weld Yws Gwynedd yn perfformio *Sebona Fi*, a'r cyfle i'w gyfweld a'i longyfarch am gipio pedair gwobr yng ngwobrau'r Selar nos Sadwrn diwethaf. Cafodd y dysgwyr gopi o albwm diweddaraf Yws, *Anrheoli*, wedi'i harwyddo a chrys-t yn rhodd iddynt.

Mae ymweliad y cerddor adnabyddus wedi ysbrydoli'r dysgwyr i barhau i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu eu diddordeb mewn cerddoriaeth Gymraeg gyfoes.

Mae disgyblion y Ganolfan Iaith Uwchradd ar eu pumed wythnos yn dysgu Cymraeg ac mi fyddant yn dychwelyd i'w hysgolion uwchradd ymhen mis i dderbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg.



fod
d i'r